

Polisi Gwrth-fwlio ac aflonyddu

Rydyn ni'n credu'n gryf na ellir byth cyfiawnhau unrhyw fath o fwlio nac aflonyddu.

Cymeradwywyd: 15 Rhagfyr 2021

Fersiwn: 2

Perchennog cynnwys: Arferion diogel

Mae Girlguiding yn credu na ellir byth cyfiawnhau unrhyw fath o fwlio nac aflonyddu.

Mae'r polisi hwn yn nodi agwedd dim goddefgarwch Girlguiding tuag at fwlio ac aflonyddu. Mae'n berthnasol i holl aelodau, gwirfoddolwyr a staff Girlguiding.

Mae'n egluro'r hyn a olygwn wrth fwlio ac aflonyddu, sut rydyn ni'n disgwyl i'n haelodau, ein gwirfoddolwyr a'n staff weithredu ac ymddwyn, a sut byddwn yn rheoli achosion o dorri'r polisi hwn.

I gael manylion am sut i riportio bwlio ac aflonyddu, darllenwch ein gweithdrefnau gwrth-fwlio ac aflonyddu.

Beth yw bwlio?

Ymddygiad bwriadol yw bwlio sy'n achosi niwed corfforol neu emosiynol i berson neu bobl eraill. Mae'n digwydd dro ar ôl tro, hyd yn oed pan ofynnir i rywun stopio. Mae'n aml yn seiliedig ar anghydbwysedd grym, neu ganfyddiad o anghydbwysedd grym, rhwng y bwli a'r sawl sy'n cael ei fwlio. A gall fod yn barhaus ac yn gynnil.

Gall bwlio gael effaith hirdymor ar les corfforol ac emosiynol y person sy'n cael ei fwlio.

Beth yw aflonyddu?

Mae aflonyddu yn ymddygiad digroeso y mae rhywun yn ei ystyried yn sarhaus, yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ofnus neu'n bychanu, neu'n creu amgylchedd gelyniaethus neu ddiraddiol.

Mae unrhyw aflonyddu sy'n cael ei gyfeirio at rywun oherwydd nodwedd warchoddedig fel yr eglurir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn cael ei ystyried yn wahaniaethu anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys aflonyddu rhywiol. Nid yn unig y mae hyn yn erbyn y gyfraith, mae'n mynd yn groes i'n hymrwymiad i werthfawrogi a dathlu gwahaniaethau. Mae'n torri'r polisi hwn a'n polisi [cydraddoldeb ac amrywiaeth](#).

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am sut i adnabod bwlio ac aflonyddu, yn ogystal â gwrthdaro perthynol yn ein gweithdrefn Gwrth-fwlio ac aflonyddu.

Datganiad polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl leoliadau a gweithgareddau Girlguiding a British Girlguiding Overseas fel cyfarfodydd uned, digwyddiadau a gweithleoedd.

Mae'n berthnasol i holl ddeunydd cyfathrebu ac ymddygiad Girlguiding, ar-lein ac all-lein.

Rydyn ni'n disgwyl i holl wirfoddolwyr, aelodau a staff Girlguiding (gan gynnwys gweithwyr, swyddogion, ymgynghorwyr, contractwyr, interniaid, gweithwyr achlysurol a gweithwyr asiantaeth) wneud y canlynol:

- Trin pawb gydag urddas a pharch, gan ddilyn [ein polisi Cydraddoldeb ac amrywiaeth](#), fel bod Girlguiding yn lle y mae croeso i bawb ac sy'n rhydd i fod yn nhw eu hunain
- Hyrwyddo ymddygiad positif, cynhwysol drwy osod esiampl dda a herio'r rhai nad ydynt
- Dilyn ymddygiad diogelu effeithiol
- Bod yn ymwybodol o ymddygiad sy'n awgrymu bwlio neu aflonyddu posib
- Riportio bwlio ac aflonyddu posib i'n hadran Arferion Diogel cyn gynted ag y gallwch. Os ydych yn aelod o staff, dylech roi gwybod i'ch rheolwr neu'r adran Adnoddau Dynol. Gweler ein gweithdrefnau gwrth-fwlio ac aflonyddu am fwy o wybodaeth

- Ymateb i achosion o fwlio, aflonyddu neu wrthdaro perthynol rhwng aelodau ifanc yn lleol. Gwneud defnydd o gomisiynwyr lleol a riportio i'n hadran Arferion Diogel lle bo'n briodol
- Delio â digwyddiadau mewn ffordd amserol a thryloyw

Mae gan Girlguiding ddyletswydd gofal am ei wirfoddolwyr. Os oes unrhyw wirfoddolwr yn profi bwlio, aflonyddu neu ymddygiad amhriodol arall wrth riant neu ofalwr aelod ifanc, gallai hyn arwain at dynnu aelodaeth yr aelod ifanc yn ôl. Eglurir hyn yn ein [polisi aelodau ifanc](#).

Rheoli achosion o dorri'r polisi hwn

Rydyn ni'n rheoli achosion o dorri'r polisi hwn gan wirfoddolwyr yn unol â'n [polisi rheoli pryderon am wirfoddolwyr sy'n oedolion](#) a lle bo'n briodol, [ein polisi Diogelu](#).

Os yw aelodau staff Girlguiding yn torri'r polisi hwn, byddwn yn dilyn ein gweithdrefn disgyblu Staff sydd ar gael ar y fewnwyd staff.

Chwythu'r chwiban fel gwirfoddolwr neu aelod o staff

Rydyn ni'n annog ein gwirfoddolwyr a'n staff i riportio pryderon am fwlio ac aflonyddu posib. Ond rydyn ni'n gwybod y gallai hyn fod yn anodd neu'n anghyfforddus i chi. Yn yr achos hwnnw, rydyn ni'n eich annog i wneud adroddiad drwy ddilyn [ein polisi](#) a'n [gweithdrefnau chwythu'r chwiban](#).

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am sut i gymhwyso'r polisi hwn yn ein gweithdrefnau gwrth-fwlio ac aflonyddu.

Mudiadau cymorth

[ACAS](#) – cymorth adnoddau dynol rhad ac am ddim a chymorth cyfreithiol i weithwyr yn y DU.

[Y Gynghrai Wrth-fwlio](#) – clymblaid o fudiadau ac unigolion sy'n unedig yn erbyn bwlio.

[BulliesOut](#) – elusen sy'n cynnig addysg, hyfforddiant a chymorth ynglŷn â bwlio. Yn ogystal â gwasanaeth mentora am ddim ar e-bost i unrhyw un sy'n dioddef bwlio.

[Childline](#) – llinell gymorth gyfrinachol am ddim i blant a phobl ifanc. Mae'n cynnig cyngor a chymorth 24 awr y dydd. Ceir adran gyfan [ar eu gwefan ynglŷn â materion bwlio](#).

[Family Lives/Bullying UK](#) – elusen sy'n cynnig cyngor a chymorth i unrhyw un sydd wedi'u heffeithio gan fwlio.

[Northern Ireland Anti-Bullying Forum](#) – elusen sy'n ceisio dod â bwlio i ben.

[NSPCC](#) – prif elusen blant y DU, sy'n cynnig gwybodaeth am gam-drin plant.

[Refuge](#) – elusen sy'n cefnogi menywod a phlant sydd wedi profi trais a chamdriniaeth.

[RespectMe](#) – gwasanaeth gwrth-fwlio yr Alban.

[Y Samariaid](#) – elusen sy'n gweithio i sicrhau bod wastad rhywun yno i bobl mewn angen.

[Switchboard](#) – gwasanaeth gwranddo cyfrinachol ar gyfer y gymuned LHDT+

[Cymorth i Ddiodefwyr](#) – elusen annibynnol ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan droseddau a digwyddiadau trawmatig yng Nghymru a Lloegr.

[YoungMinds](#) – prif elusen y DU sy'n brwydro dros iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Darllen pellach

[Respect for All](#) – ymgyrch genedlaethol llywodraeth yr Alban ar gyfer atal bwlio

[Gwaith ac iechyd meddwl \(PDF\)](#) – adnodd a gyhoeddwyd gan yr elusen Mind

[Cyngor gan Mind ar fwlio yn y gweithle](#)